

Adroddiad Ymgysylltu:

Profiad cleifion o Ganolfan Feddygol
Forest View

[Ardal y Rhondda]

Chwefror 2023



Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad yma ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a / neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Adran	Tudalen
Ynglŷn â'r CIGau	3
Cefndir a chyflwyniad	4
Yr hyn wnaethon ni	5
Gan bwy rydym ni wedi clywed	7
Yr hyn a glywsom	8
Dysgu o'r hyn a glywsom	22
Diolch	24
Adborth	25
Manylion cyswllt	26

Ynglŷn â'r Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau)

Y Cyngorau Iechyd Cymuned yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru yn annog ac yn cefnogi pobl i gael llais wrth ddylunio a darparu gwasanaethau'r GIG.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a chyrrff rheoleiddio. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn darparu cyswllt pwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n ei arolygu a'i reoleiddio a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae CICau yn clywed gan y cyhoedd mewn sawl ffordd wahanol. Cyn y pandemig coronafeirws, roedd y Cyngorau Iechyd Cymuned yn ymweld â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd i glywed gan bobl tra oedden nhw'n cael gofal a thriniaeth. Clywodd CICau hefyd gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol, a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Ers y pandemig coronafeirws, mae'r Cyngorau Iechyd Cymuned wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd gwahanol.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideo-gynadledda a chyfryngau cymdeithasol i glywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae 7 o Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli'r llais "y claf a'r cyhoedd" mewn rhannau gwahanol o Gymru.

Cyflwyniad a chefnidir

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg yn ymdrechu i glywed gan gleifion a'r cyhoedd ar draws pob demograffeg, cymunedau a grwpiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Yn ogystal â gofyn am adborth cyffredinol gan y cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â'u gofal iechyd, mae'r CIC hefyd yn cynnal ymgyrchoedd penodol, wedi'u targedu ar gyfer gwybodaeth ac adborth gan gleifion sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau penodol, neu ar wasanaethau penodol o fewn y GIG, er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan bob grŵp o gymdeithas o ran eu darpariaeth gofal iechyd.

Yn yr achos yma, roedd y Cyngor Iechyd Cymuned eisiau clywed yn uniongyrchol gan gleifion Canolfan Feddygol Forest View yn Nhreforci, Rhondda Cynon Taf, am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau yn y feddygfa.



FOREST VIEW
HEALTH
ACUTE WELLNESS

Yr hyn wnaethon ni


Yn dilyn cyfarfod rhagarweiniol gydag Aelod y Senedd (AS) ar gyfer y Rhondda, Buffy Williams, ar 14 Tachwedd 2022, cafodd y CIC wybod am bryderon cynyddol yn nhref Treorci a'r cyffiniau mewn perthynas â Meddygfa Forest View. Yn wyneb y pryderon hyn, cafodd y CIC eu cyfeirio at nifer o negeseuon a llinynnau Facebook lle'r oedd pryderon yn cael eu gwyntyllu'n rhydd ac mewn niferoedd sylweddol.

Aeth yr AS ymlaen i wahodd y Cyngor Iechyd Cymuned i fynychu cyfarfod yn ei swyddfa etholaeth ar 30 Tachwedd 2022, i siarad ag aelodau'r cyhoedd am y pryderon gyda'r Feddygfa. Y bwriad cychwynnol oedd mynychu a gwranddo ar y pryderon fel grŵp cyfunol, fodd bynnag, daeth yn amlwg yn gyflym fod diddordeb yn y gweithgaredd ymgysylltu penodol hwn yn eithaf sylweddol. Mewn ymateb i'r niferoedd a ddisgwylid, roedd hyd y cyfarfod wedi'i ymestyn o 1 awr i 3 awr a chafodd arolwg ar-lein ei ddrafftio er mwyn casglu barn ar y diwrnod a hefyd gan unrhyw un nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

Er mwyn caniatáu i gymaint o bobl â phosibl gyfrannu, roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau o 30 Tachwedd 2022 tan 9 Ionawr 2023. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth o amgylch y canlynol:

- ❖ Eu hymdrech ddiweddaraf i gael mynediad at wasanaethau'r Feddygfa yma
- ❖ Y profiad o drefnu apwyntiad
- ❖ Hyd yr amser i gael apwyntiad gyda meddyg teulu ar gyfer materion brys a'r gallu i gael mynediad i apwyntiad ymlaen llaw ar gyfer pethau fel canlyniadau profion/ôl-alwadau/rheoli cyflwr cronig ac ati.
- ❖ Eu profiad cyffredinol o'r Feddygfa, ar wahân i fynediad
- ❖ Unrhyw awgrymiadau ac/ neu argymhellion a allai fod ganddynt ar gyfer gwella gwasanaethau yn y Feddygfa

Cafodd yr arolwg ei rannu gan yr AS gydag unrhyw un a gysylltodd â'i swyddfa ac ar-lein trwy ei Chyfryngau Cymdeithasol. Mae'r gyfradd ymateb a'r canfyddiadau i'w gweld o dan adran 'yr hyn a glywsom' o'r adroddiad hwn.



Gan bwy rydym ni wedi clywed

Ar ôl cau'r arolwg ar 9 Ionawr, gallwn adrodd bod y CIC wedi derbyn 880 o arolygon wedi'u cwblhau naill ai ar ffurf papur neu drwy'r arolwg ar-lein. Derbyniwyd y mwyafrif helaeth drwy'r dull ar-lein, gyda llai na 10% wedi'u cyflwyno yn dilyn cyflwyno papur.

Yn anffodus, nid oedd adran cydraddoldeb ein harolygon arferol ynghlwm wrth yr arolwg ar-lein ar adeg y creu ac, felly, nid oes data cydraddoldeb penodol ar gael i'w adrodd yn yr adran hon.

Fodd bynnag, yr hyn y gellir ei adrodd yw bod cyfleoedd wedi'u darparu i unigolion gwblhau arolygon ar-lein, cyflwyniadau papur a hefyd presenoldeb corfforol, gyda chymorth staff, yn y cyfarfod pwrpasol gyda'r CIC neu yn swyddfa'r AS ar unrhyw adeg tra bod yr arolwg ar agor.

Y ddemograffeg ar ddiwrnod y cyfarfod oedd bod y mwyafrif dros 50+, yn fenywaidd ac wedi ymddeol. Gwirfoddolwyd y wybodaeth hon mewn trafodaeth gyffredinol gan yr ymatebwyr.

Dim ond yn Saesneg y mae'r cymylau geiriau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ar gael gan fod y dadansoddiad hwn wedi'i gymryd yn uniongyrchol o'r ymatebion a dderbyniwyd. Gan nad oedd unrhyw ymatebion Cymraeg, ni ellir cynhyrchu fersiynau Cymraeg.

Yr hyn a glywsom

Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn cynnwys dadansoddi'r arolwg a gyflawnwyd gennym ac yn ychwanegu gwybodaeth atodol a gedwir gan y CIC i gefnogi'r dadansoddiad hwn. Y tro hwn, cefnogir yr arolwg gan ein swyddogion oedd wedi mynychu'r cyfarfod cleifion/cyhoeddus yn Nhreorci, a'r trafodaethau a gafwyd yno.

Perthnasedd

Roedd y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd gennym yn ein harolwg a'n trafodaethau yn canolbwyntio ar nodi pa mor amserol oedd yr ymatebion mewn perthynas â phrofiad cleifion y feddygfa hon. Dyma'r canlyniadau a dderbyniwyd:

1) Pa mor ddiweddar ydych chi wedi derbyn, neu wedi ceisio derbyn gwasanaethau yn y Feddygfa yma?

- Yn y 7 diwrnod diwethaf (29%)
- Yn y mis diwethaf (32%)
- Rhwng 1-3 mis (26%)
- Dros 3 mis yn ôl 3 (13%)



Fel y gwelir uchod, roedd mwyafrif yr ymatebion (61%) yn ymwneud â chysylltiadau â chleifion/ceisio cysylltu o fewn mis i gwblhau ein harolwg. Mae hyn yn golygu bod 538 o'n 880 o ymatebwyr yn darparu eu profiadau yn seiliedig ar gyswllt yn dyddio o'r 1 Tachwedd 2022. Roedd 26 arall yn seiliedig ar brofiadau yn dyddio o ddim pellach yn ôl na 1 Medi 2022 a dim ond 13% y gellid eu priodoli i brofiadau wedi'u dyddio'n hŷn na 3 mis.

Apwyntiadau

Yn yr adran hon o'r arolwg, gofynnwyd 4 cwestiwn yn ymwneud â'r system apwyntiadau, gan fod hynny'n cael ei nodi fel y maes allweddol yn dilyn adolygiad o sylwadau'r Cyfryngau Cymdeithasol, a'r drafodaeth gychwynnol a gynhaliwyd gyda'r AS.

2) Sut fuddech chi'n graddio trefnu apwyntiad yn eich Meddygfa?

- Hawdd iawn (4%)
- Hawdd (5%)
- Cymhedrol (7%)
- Anodd (22%)
- Anodd iawn (62%)



Mae'n bryderus darllen bod 742 (84%) o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen graddio apwyntiad yn y Feddygfa fel un anodd neu anodd iawn. Ymhellach at hyn, derbyniodd swyddfa'r etholaeth yr AS 41 e-bost uniongyrchol ar gyfer eu rhannu a siaradodd staff CIC gyda 15 o unigolion yn helaeth yn y cyfarfod. Roedd pob un o'r 56 o ymgysylltiadau yn cefnogi'r canfyddiadau bod y system apwyntiadau yn cael ei hystyried yn anodd iawn, a dim yn addas i'r diben gan y cleifion. Mae dadansoddiad pellach o'r rhesymau dros y sgôr hon wedi'i gynnwys isod.

4) Pa mor hir fel arfer ydych chi'n gorfod aros am apwyntiad gyda meddyg teulu ar gyfer mater 'brys?

- 24 awr (25%)
- 24-48 awr (27%)
- Dros 48 awr (48%)



Wrth edrych ar yr ymateb i'r cwestiwn hwn, gellid tybio bod hwn yn ymateb eithaf negyddol yn seiliedig ar y gyfran uwch o ymatebion sy'n nodi mwy na 48 awr. Fodd bynnag, er mwyn i'r Feddygfa fod yn gweld 52% o gleifion o fewn 48 awr lle mae'r mater yn cael ei ystyried yn un brys, gallai hyn fod yn gwbl briodol yn seiliedig ar berfformiad unrhyw system brysbennu sydd yn ei le a byddai'n deilwng o archwiliad pellach.

5) Ydych chi wedi gallu trefnu awpyntiadau o flaen llaw, ar gyfer pethau fel/ôl-alwadau rheoli cyflwr cronig etc.

- Ydw (20%)
- Nac Ydw (59%)
- Dim yn siŵr neu dim angen (21%)



Mae'n bryderus iawn darllen bod dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad oedd modd iddynt drefnu awpyntiadau ymlaen llaw ar gyfer cyflyrau cronig a chanlyniadau profion diagnostig a allai gael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Mae dadansoddiad pellach sy'n gysylltiedig â hyn wedi cynnwys y dadansoddiad naratif a gynhwysir isod.


Wrth adolygu'r amrediad o ymatebion naratif nodwyd y materion/themâu canlynol.

Pryderon am apwyntiadau

Mae'n glir o ymatebion mai'r system apwyntiadau a mynediad yw'r pryder craidd i gleifion sy'n ymwneud â Chanolfan Feddygol Forest View, ond byddai hefyd yn annheg dweud bod y Feddygfa yma ar ei ben ei hun mewn perthynas â phryderon mynediad, gydag adroddiadau yn genedlaethol yng Nghymru a'r DU gyfan yn awgrymu bod y mater hwn yn gyffredin ym mhob man. Yr hyn sy'n peri mwy o bryder yw'r effaith ganlyniadol sy'n cael ei adrodd gan gleifion, boed hyn yn gwaethygu cyflyrau neu bryderon a achosir gan aros am ganlyniadau diagnostig am gryn amser.

"Ar ôl gweld y Nyrs Diabetig, dywedodd bod angen i mi weld y meddyg ASAP ond gwrthododd y derbynnnydd apwyntiad i mi tra yno. Galwodd y meddyg fi nôl 2 wythnos yn ddiweddarach a bwcio fi mewn am yr wythnos ganlynol. Roedd y gorbryder o hyn yn annioddefol gan fod fy Mam wedi marw o ganlyniad i Diabetes"

Roedd cryn dipyn o sylwadau'n ymwneud â bod dim apwyntiadau ar gael pan oedden nhw o'r diwedd yn mynd drwodd i siarad gyda derbynnydd, gyda'r ymatebwyr yn dweud bod hyn yn digwydd waeth pa mor hir roedden nhw'n aros a pha mor agos at 8am maen nhw'n ffonio.



System ffôn

I ddilyn ymlaen o'r system apwyntiadau, soniwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am y system ffôn ei hun mewn mwyafrif helaeth o ymatebion. Yn anuniongyrchol yn gyfeiriad at y defnydd o eiriau fel ciwiau, safle o ran rhif ac aros yn hytrach na defnyddio'r gair 'ffôn' yn uniongyrchol.

Mae'r pryderon o dan y thema hon yn eithaf generig eu natur eto, sy'n awgrymu bod y system yn ddiffygiol ac yn cael mwy o negatiffau na phethau positif. Fodd bynnag roedd hefyd yn bosib adnabod 3 maes peno

dol o bryder.

Ciw - Sylwadau a ddarparwyd yn bennaf yn cyfeirio at giwio am gryn dipyn o amser, gyda rhai yn nodi arosiadau o hyd at awr a rhai'n awgrymu eu bod mewn gwirionedd wedi rhoi'r gorau iddi a 'dioddef' yn lle dyfalbarhau.

" Roeddwn wedi cael Endosgopi ac roedd angen i mi siarad â'r meddyg am y canlyniadau. Cafodd meddyginiaeth eu dal yn ôl nes i mi weld meddyg teulu ac roedd angen hyn cyn y driniaeth. Cefais wybod nad oeddwn yn argyfwng ac i ffonio am apwyntiad arferol ac wrth alw, cael gwybod nad oes apwyntiadau ar ôl. Dwi wedi rhoi'r gorau iddi nawr ac yn dioddef mewn tawelwch."

" Roeddwn i eisiau apwyntiad sydd ddim yn fater brys. Ar ffonio ro'n i'n 48 yn y ciw felly wnes i roi'r ffidil yn y to."

Torri'i ffwrdd - Yn ogystal â'r nifer sy'n poeni am giwiau a bod

yn y niferoedd uchel wrth alw'r Feddygfa, mae'n amlwg bod yna deimlad mawr o rwystredigaeth yn y system ffôn yn torri cleifion i ffwrdd wrth iddyn nhw agosáu at gael eu hateb ac ar ôl cyfnod sylweddol o amser yn aros.

"Ar ôl aros rhif 46 yn y ciw ffôn, 45 munud rydych chi'n mynd lawr i rif 1 yn y ciw yna mae'r llinell ffôn yn marw"

Costau – Roedd nifer llai o ymatebion yn dangos pryderon am gostau sy'n cael eu profi gan gleifion wrth ffonio'r Feddygfa ac aros am gyfnodau sylweddol cyn cael ateb. I ddwysáu'r mater ymhellach, bob tro roedd ymateb 'dim apwyntiadau ar ôl', mae cleifion yn ymwybodol iawn y byddant yn wynebu aros costus ychwanegol y diwrnod canlynol neu, os ydynt yn cael eu cyfeirio at y rhestr 1pm, ddwywaith y dydd.

***"Cost yr alwad ffôn!! Dim ond i gael gwybod nad oes apwyntiadau ac i alw'n ôl yfory!
8am – 26 munud – £6.48 8:
01am – 39 munud - £9.60 8:03am
– 17munud - £4.32"***

" Roedd fy mil yn ddeugain punt od yn annwylach na'r arfer am y mis hwnnw yn unig oherwydd ffonio'r meddygon"

Effaith ar wasanaethau eraill

Ar adeg y gweithgaredd hwn, mae'n hysbys yn gyffredinol bod holl system y GIG o dan bwysau sylweddol ac mae Meddygfeydd yn parhau fel y llwybr i mewn i'r system. Pan mae pwysau ar wasanaethau meddygon teulu, dyw hi ddim yn annisgwyl bod 'gorlif' mewn i wasanaethau eraill ble mae'r angen brys. Mae ymatebion yr arolwg hwn yn awgrymu bod y Feddygfa yma yn mynd ati i annog cleifion i fynd i'r Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a'r Tu Allan i Oriau ar adegau pan nad oes apwyntiadau yn weddill.

"1pm, dim apwyntiadau ar ôl bod yn rhif 29. Dywedwyd wrthyf naill ai geisio cael gwasanaeth Allan o Oriau neu ffonio'n ôl am 8am"

" Mae'n hunllef, weithiau maen nhw hyd yn oed yn awgrymu eich bod chi'n mynd i A&E! "

" Fe wnes i ddiodef am wythnos gyda meigryn, dros y cownter ni fyddai meddyginiaeth yn gweithio. Aeth mor wael fe wnes i gwympo am 1pm, dywedodd y Feddygfa nad oedd unrhyw apwyntiadau a bu'n rhaid i mi fynd i A&E

Gweithgaredd wedi'i gynllunio

Pryder arall sydd wedi dod allan o'r dadansoddiad yw pan mae'r meddyg teulu/nyrs yn gofyn i'r claf drefnu apwyntiad dilyn i fyny o fewn cyfnod penodol ond mae'r staff yn y dderbynfa yn hysbysu cleifion nad yw hyn yn bosibl ac mae pob math o apwyntiadau'n cael eu trefnu ar y diwrnod. Yn ogystal â hyn, mae hefyd y materion canlynol y mae cleifion yn credu y dylid eu rheoli ac mae angen eu rheoli'n well gan y gellid eu hystyried fel gweithgaredd wedi'i gynllunio ac nid cysylltiadau newydd:

1. Mae cleifion yn cael gwybod y byddan nhw'n derbyn galwadau ar ôl ciwio a dydy hyn ddim yn digwydd er iddyn nhw aros am yr alwad.
2. Nid yw adolygiadau ar gyfer cyflyrau cronig, ac weithiau meddyginiaeth, wedi cael eu cynnal, gyda'r ymatebwyr yn awgrymu bod eu hadolygiadau diwethaf cyn y pandemig COVID.
3. Dywedodd y cleifion eu bod yn cael apwyntiadau wedi'u canslo gan y Feddygfa, ar fwy nag un achlysur, ac er iddyn nhw gael gwybod wedyn y bydd yr apwyntiadau yma'n cael eu haidrefnu nid yw byth yn digwydd.
4. Mae problemau wedi'u nodi lle mae cleifion yn cael profion wedi'u cynnal, fel gwaed, ond yna methu mynd drwodd i'r Feddygfa er mwyn cael gwybod beth yw'r canlyniadau.

" Dywedodd y meddyg wrthyf am wneud galwad dilyn i fyny i drafod canlyniadau fy ngwaed,

" Mae gofyn i mi gael adolygiadau diabetig a chefais i ddim byd am 3 blynedd er i'r DVLA dalu."

"Fe ges i apwyntiad yn cael ei ganslo nid unwaith ond ddwywaith ac fe ges i wybod y byddwn i'n cael fy ngalw yn ôl i aildrefnu ond erioed wedi clywed unrhyw beth a methu

Hyblygrwydd i gleifion sydd yn gweithio

Yn dod drwodd yn gyson, ond nid yn y niferoedd mwyaf, oedd y ffaith nad oedd y system bresennol yn cael ei hystyried yn hygyrch i gleifion sy'n gweithio mewn shiftiau a swyddi safonol 9-5. Cyfeiriwyd at hyd yr amser a dreuliwyd ar y ffôn fel un o'r problemau mwyaf sy'n gysylltiedig â hyn, a hefyd nad oedden nhw ar gael ar gyfer yr un alwad yn ôl y byddai'r Feddygfa yn ei gwneud.


"Rwy'n gweithio mewn ysbyty felly methu cymryd galwadau ffôn felly dim ond os dwi'n cymryd gwyliau blynyddol alla i wneud apwyntiad gan nad ydw i'n gallu cael apwyntiad ar ôl 5pm chwaith. Mae pob galwad ffôn naill ai'n AM/PM felly ni allaf eu trefnu chwaith gan na allaf gymryd cymaint o amser â hynny allan o'r gwaith dim ond i aros am alwad"

Profiad Cyffredinol

Tua diwedd pob arolwg, mae'r CIC yn rhoi'r cyfle i'r ymatebwyr raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth a hefyd i ddarparu unrhyw sylwadau terfynol, da neu ddrwg, y maent eisiau eu gwneud.

6) Ac eithrio mynediad, sut fyddech chi'n graddio eich profiad o'ch Meddygfa?

- Ardderchog (15%) ● Di iawn(19%)
- Da (15%) ● Gweddol (15%)
- Gwael (16%) ● Gwael iawn(20%)



Ar ôl adolygu'r ystadegau uchod a'r ymatebion i gwestiwn 6, "Heblaw mynediad, sut fyddech chi'n graddio eich profiad o'ch Meddygfa?", mae rhaniad bron i 50% rhwng ymatebion cadarnhaol a negyddol i'r ddau gwestiwn. Mae hwn yn wahaniaeth amlwg o'r negyddiaeth llethol a ddangosir wrth ganolbwyntio'n benodol ar fynediad a, lle mae sylwadau negyddol yn digwydd yn yr ymatebion naratif, mae cryn dipyn o bryderon mynediad yn dal i gael eu rhestru. Gan ystyried y nod oedd eithrio pryderon ynghylch mynediad, dylid adrodd y byddai'r

bodddhad cyffredinol o dan yr adran hon yn cael ei ystyried yn llawer uwch pe bai hyn yn wir.

Mae nifer fawr o sylwadau yn yr ymatebion naratif yn awgrymu, unwaith y bydd y claf yn cael apwyntiad, bod y gwasanaeth y maen nhw'n ei dderbyn yn cael ei ystyried yn 'ardderchog' neu 'heb ei ail'.

"Mae ein meddygon teulu heb euhail

" Meddygfa ffantastig, a bob tro dwi'n llwyddo i weld y meddyg teulu mae'r gwasanaeth yn anhygoel."

"Mae'r holl Staff yn barod eu cymwynas a mynd tu hwnt i'r galw

Roedd yn braf iawn darllen rhai ystyriaethau cytbwys yn dod gan ymatebwyr, lle roedden nhw wedi dewis darparu sylwadau da a drwg mewn un ymateb.

"Da: Mae staff rhagorol, cymwynasgar sydd yn rhoi o'u gorau o ystyried popeth maen nhw yn ei erbyn yn gweithio'n ddiflino er gwaethaf yr holl negyddiaeth."

"Drwg: Diffyg meddygon teulu yw'r holl broblem, fedran nhw ddim rhoi'r hyn sydd ddim ar gael"

Argymhellion cleifion



Mae cwestiwn wedi'i gynnwys ym mhob arolwg CIC yn gofyn i'r ymatebwyr rannu gyda ni unrhyw awgrymiadau sydd ganddynt, ar sut y gellid gwella eu profiadau. Darparwyd yr awgrymiadau canlynol:

- ❖ Sicrhau bod mwy o apwyntiadau ar gael ar-lein
- ❖ Ystyried agor penwythnos ac ymestyn yn gynnar i'r gyda'r nos i bobl sy'n gweithio
- ❖ Caniatáu trefnu wyneb yn wyneb os yw rhywun wedi dod i'r feddygfa
- ❖ Lleihau dyblygu ymdrech/gwastraffu amser trwy gael Meddyg yn gwneud galwad ffôn ac yna yn gweld yr un claf. Mae apwyntiad yn wyneb yn arbed amser
- ❖ Gwrthdroi'r uno a dychwelyd i feddygfeydd llai, unigol
- ❖ Dechrau defnyddio testun neu nodiadau atgoffa ar e-bost
- ❖ Cyflogi mwy o feddygon i lenwi pob safle
- ❖ Gwella trefniadau digidol
- ❖ Gwell brysbennu pwynt cyswllt, o bosib yn defnyddio nyrs fel yn yr adran Frys
- ❖ Lleihau ymwelwyr sy'n dod dro ar ôl tro ac ystyried codi'n tâl
- ❖ Rhannu'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu yn seiliedig ar argyfwng a threfn
- ❖ Mwy o leoliadau gyda mwy o Staff
- ❖ Gwella ymwybyddiaeth iechyd, rhaid i gleifion ddechrau cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain hefyd

Roedd cryn dipyn o sylwadau hefyd, o bosib o leiaf 25% oedd yn cyfeirio at y ffaith bod y system bresennol wedi torri a bod angen un newydd. Roedd yna fanylion penodol cyfyngedig o gwmpas hyn ond yr hyn sy'n amlwg yw awydd cleifion i fod yn rhan o ddatblygu'r hyn sy'n dod nesaf.

Dysgu o'r hyn a glywsom

Yn seiliedig ar yr ymatebion o gwestiwn 1, gallwn fod yn sicr bod y profiadau a gasglwyd gennym gan gleifion Canolfan Feddygol Forest View yn berthnasol ac amserol mewn perthynas â'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau. Wrth ddadansoddi'r profiadau hynny a rannwyd, mae'r pwyntiau allweddol canlynol wedi'u nodi er mwyn i Dîm Rheoli'r Feddygfa eu hystyried:

1. Nododd dros 50% o gleifion y gallan nhw gael apwyntiad gyda meddyg teulu o fewn 48 awr i gael problem frys. Gofynnir i'r Feddygfa a oes unrhyw ddata sy'n gysylltiedig â'u proses brysbennu a allai ddilysu hyn yn ymateb priodol. Y cwestiwn ydy, o'r rhai sy'n gofyn am fater brys, faint sy'n cael eu brysbennu fel rhai brys yn glinigol a faint sydd ddim.
2. Mae dros 50% o gleifion wedi dweud nad ydynt wedi gallu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw sydd yn benodol gysylltiedig â rheolaeth barhaus eu gofal iechyd sy'n cynnwys adolygiadau, gwiriadau a chanlyniadau profion. Roedd y mater hwn hefyd yn amlwg o fewn yr ymatebion naratif a ddarparwyd i gwestiynau eraill. Gofynnir i'r Feddygfa ystyried y posibilrwydd o brosesau pwrpasol ar gyfer trefnu'r apwyntiadau penodol hyn y gellir eu cynllunio ymlaen llaw.
3. Mae yna deimlad bod y galw yn fwy na'r capasiti sydd ar gael yn y Feddygfa, gyda sylwadau'n cael eu gwneud am drefniadau gwaith partneriaid presennol a nifer y Meddygon sydd ar gael ar y safle. Gofynnir i'r Feddygfa ystyried amlinellu eu cynlluniau ar gyfer cynyddu capasiti, yn ogystal â'u cynlluniau tymor byr, canolig a hir dymor ar gyfer y Feddygfa i wasanaethu'r gymuned yn well fel un meddygfa fawr.
4. Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd, ystyrir nad yw'r system ffôn yn addas i'r diben gan y cleifion ac mae angen addasu neu newid yn gyfan gwbl i fynd i'r afael ag ystod o bryderon. Gofynnir i'r Feddygfa ystyried a allai trefniant

galw nôl ffurfiol drwy'r system ffôn gael ei ddefnyddio, a fydd yn mynd i'r afael â'r ciwio, y toriadau a chostau cynyddol galwadau lluosog i gleifion.

5. Trwy gydol yr ymatebion i'r cwestiynau naratif, y thema gliriaf, y tu hwnt i'r system ffôn ac apwyntiadau, oedd trafferthion cleifion sy'n gweithio na allai gael mynediad i apwyntiadau oherwydd y cyfyngiadau yn eu swyddi. Gofynnir i'r Feddygfa ystyried ffyrdd o greu darpariaeth gwasanaethau hyblyg, sy'n darparu ar gyfer yr ystod o amgylchiadau sy'n wynebu cleifion.

I grynhoi, mae cryfder y teimladau sy'n deillio o lefel yr ymateb i'n hymgysylltiad â chleifion yn sylweddol ac fe ddylai'r Feddygfa ei gydnabod.

Argymhellwn bod y Feddygfa yn ystyried gweithio gyda'r CIC i ymgysylltu'n agored â'u carfan o gleifion. Y disgwyl yw y gallai hyn fod yn gyfle i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, cyflwyno eu cynllun ar gyfer dyfodol y Feddygfa a chaniatáu i gleifion helpu i lunio dyluniad darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.

Diolch

Diolchwn i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Rydyn ni'n gobeithio bod yr adborth mae pobl wedi cymryd amser i'w rannu yn dylanwadau ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda - a gweithredu lle mae angen iddyn nhw mor gyflym ag y gallan nhw i wella pethau

Mae'r CIC hefyd yn dymuno rhoi ar gof a chadw eu diolch i Buffy Williams, AS dros etholaeth y Rhondda, a'i thîm am ddod â'r pryderon hyn i'n sylw ac am y gefnogaeth a roddwyd ganddynt i helpu aelodau o'u cymuned i rannu eu barn gyda ni tra roedd yr ymgysylltiad yn parhau.

Adborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed beth rydych chi'n ei feddwl am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau am sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i weithio'n well yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.



Manylion cyswllt



Cwm Taf Morgannwg – Parc
Tŷ'r Antur Navigation Abercynon, CF45 4SN



01443 405830



Enquiries.ctmchc@waleschc.org.uk



www.cwmtafmorgannwgchc.nhs.wales



www.facebook.com/CTMCHC



www.twitter.com/CTMCHC



www.instagram.com/cwmtafmorgannwg_chc

Os wnewch chi ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch

**Cyngor Iechyd Cymuned
Cwm Taf Morgannwg**